

Un o'r Cennau Jeli *Collema subflaccidum*



Ffurf twf a maint: clytiau tua 10cm o labed pair tenau pan fyddant yn sych, yn gelatinoid pan yn wlyb

Lliw: brown-du pan yn sych, gwyrdd-ddu pan yn wlyb

Soredia/Isidia: toreth o isidia silindrog neu chronellologyn gorchuddio'r thalws

Apothesia: prin iawn

Ochr isaf: anodd ei weld, ond yn debyg i'r wyneb uchaf

Rhywogaethau tebyg: rhai rhywogaethau gellir eu cymysgu â *C. flaccidum*, sydd â isidia fflat a loblwau

Nodiadau: anghyffredin

Adenydd Ystlumod *Collema furfuraceum*



Ffurf twf a maint: gall ffurfio cytreff mawr hyd at tua 10cm o labedau tenau tebyg i bilen wedi'u gwasgu'n agos i'r swbstrad. Mae gan y llabedau gribau a chrychau yn ymledu tuag allan. Dywedir ei fod yn edrych fel adenydd ystlumod

Lliw: gwyrdd-ddu tywyll, mwy tryloyw pan yn wlyb

Soredia/Isidia: fel arfer toreth o isidia fel peg i ganghennog ar gribau llabedau aeddfed

Apothesia: prin iawn

Rhywogaethau tebyg: yn hawdd, eu drysu â *Collema subflaccidum* ond mae *C. furfuraceum* fel arfer yn cael ei wasgu'n dynnach i'r swbstrad gyda llabedau cribau pelydrol. Nid yw'r rhywogaeth hon yn chwyddo pan yn wlyb fel llawer o rywogaethau eraill *Collema* a chysylltiedig

Nodiadau: anghyffredin

Cen Peithynog Ymyl Flodiog *Pannaria conoplea*



Gwlyb

Ffurf twf a maint: hyd at 10cm, cenynnau bach gydag ymylon ffrillog

Lliw: llwyd golau i lwydlas gydag ymylon goleuach, arlliw brown weithiau a thywyllach pan yn wlyb

Soredia/Isidia: soredia llwyd bras

Ffrwyth: prin iawn

Ochr isaf: mae ganddo hypothalws melfedaidd duaidd neu lwydaidd ond nid yw'n weladwy fel rheol

Rhywogaethau tebyg: *P. rubiginosa*, ond mae hwn fel rheol yn ffrwythlon iawn, heb unrhyw soredia, ac mae'n brin iawn yng Nghymru

Nodiadau: anghyffredin

Cen Peithynog Ymyl Du *Parmeliella thriptophylla*



Ffurf twf a maint: gall ffurfio clytiau mawr a strimynnau o 30cm neu fwy wedi'u ffurfio gan enynnau bychain yn eistedd ar hypothalws du

Lliw: yn ymddangos yn dduaid o bell ond yn agos mae'n frown neu'n llwydfrown pan yn sych, yn dywyllach pan yn wlyb

Soredia/Isidia: isidia mân iawn, tenau a thebyg i fysedd, canghennog weithiau, a all ffurfio cramen drwchus yng nghanol y thalws

Apothesia: prin; bach (hyd at 1mm) a chochfrown

Ochr isaf: mae hypothalws du yn ymestyn y tu hwnt i ymylon y cenynnau, gan ffurfio border du

Nodiadau: anghyffredin. Yn ymddangos fel staen tywyll ar risgl coed

Plantlife ydym ni

Plantlife yw'r elusen fyd-eang sy'n gweithio i wella, gwarchod, adfer a dathlu'r planhigion gwylt a'r ffynghau sy'n hanfodol i holl fywyd y ddaear.

Gyda dau o bob pum rhywogaeth o blanhigion mewn perygl o ddiplannu, colli bioamrywiaeth yw'r cyflwmaf y bu erioed ac ni fu gwaith Plantlife erioed mor hanfodol. Helpwch i sicrhau byd llawn planhigion gwylt a ffynghau trwy ddod yn aelod o Plantlife heddiw.

Plantlife
Brewery House
36 Milford Street, Salisbury
Wiltshire, SP1 2AP
enquiries@plantlife.org.uk
plantlife.org.uk

Lawrlwythwch gopi digidol o'r canllaw hwn a darganodffw mwy am reoli coedwigoedd glaw:



Sganiwch y cod QR neu ymwelwch joinplantlife.org/temperate-rainforest-c-lob

Geirfa

Apothesia: strwythurau atgennedlu rhywiol ar wyneb y thalws sy'n gwasgaru sborau ffynghaidd, fel corff ffrwythol madarch. Yn siâp disg yn aml ond maent ar sawl ffurf

Ceden: gwedd crychiog ar ochr isaf thalws sy'n ei atodi i'r swbstrad

Cennyn: llabedyn bach

Cyphellae: toriadau neu dyllau bach yn arwyneb ochr isaf llabed, sy'n nodweddiadol o'r teulu *Sticta*

Ffurf: ffurf twf y cen h.y. fel dail (deiliog), prysgoediog (llwynaidd), cramennog (cennog)

Hypothalws: mat tywyll o linyddau ffynghaidd y mae llabedau a chenynnau o rywogaethau penodol yn eistedd arnynt e.e. *Pectenia*, *Parmeliella*

Isidia: strwythurau atgennedlu llystyfol sy'n edrych fel pegiau bach caled ar y thalws, gallant fod yn syml neu'n debyg i gwrel

Llabed: 'deilen' cen deiliog

Llabedyn: llabed mân sy'n tyfu ar arwyneb uchaf neu ymyl y llabed

Pruina: siwgr eisin fel llwch dros arwyneb thalws neu apothesiwm

Rhisinau: strwythurau tebyg i wreiddiau ar yr ochr isaf sy'n gyfrwng yn syml i atodi'r cen wrth y swbstrad

Seffalodia: tyfiannau llwyni brown tywyll neu dduaid o syanobacteria sy'n gosod nitrogen o'r atmosffer

Soralia: strwythurau atgennedlu llystyfol sy'n cynnwys soredia, maent yn ymddangos fel crafiadau neu wlsrau ar y thalws. Yn aml siâp hirgrwn neu glychol

Swbstrad: yr arwyneb y mae'r cen yn tyfu arno e.e. rhisgl coeden, craig

Thalws: corff y cen

Er bod enwau Cymraeg wedi cael eu defnyddio yn y canllaw hwn, ychydig sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol. Dylid defnyddio enwau gwyddonol bob amser wrth gofnodi cennau er mwyn osgoi amlysedd.

britishlichensociety.org.uk
Mae gan Gymdeithas Cennau Prydain (BLS) wybodaeth am gennau, cyhoeddiadau, cyrsiau a dolenni gwe.

Nodwr EF Brenin Charles III

Plantlife International - Mae'r Elusen Cadwraeth Planhigion Gwylt yn gwrmi elusennol cyfyngedig trwy warant. Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, Rhif Elusen: 1059559. Wedi'i gofrestru yn yr Alban, Rhif Elusen: SC038951. Rhif Cwmni Cofrestredig: 3166339. Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr.

© Plantlife Ionawr 2025

Ysgrifennwyd y canllaw hwn yn wreiddiol gan Andy Acton ac Anna Griffith. Delweddau © Andy Acton/Amherthnasolna Griffith/Ray Woods/Dave Lamcraft/Jason Hollinger a Tim Wilkins. Delwedd o *Nephroma parile* © Rudolphous dan Creative Commons CC0 1.0

Ffrwyth ac isidia ar *Lobaria pulmonaria*



Llabedyn ar *Leptogium cyanescens*



Soredia ar *Pseudocyphellaria citrina*



Hypothalws ar *Parmeliella thriptophylla*



Rhisinau ar *Peltigera* sp.



Tomentwm gyda cyphellae ar *Sticta* sp.




Plantlife
Cymru

Cennau Coedwigoedd Glaw Cymru

Canllaw 1 - Cennau ar Goed Ynn, Cyll, Helyg, Criafol, hen Dderw a chreigiau llai asidig

Croen Jeli Glas *Leptogium cyanescens*



Ffurf twf a maint: rhosedi cywrain o labedau tenau sy'n gorgyffwrdd hyd at 10cm

Lliw: llwydlas golau pan yn sych, llwyd tywyll i dduaid pan yn wlyb

Soredia/Isidia: isidia neu labedynnau silindrog neu fflat yn doreithiog ar ymylon y llabed neu arwyneb y thalws

Apothesia: prin iawn

Ochr isaf: llyfn neu ychydig yn grych

Rhywogaethau tebyg: rhai rhywogaethau *Leptogium* eraill ond mae'r cyfandiad o isidia neu labedynnau fflat a'r lliw llwydlas pan yn sych yn nodedig

Nodiadau: anghyffredin

2. Oes gan y cen labedau deiliog bach iawn; a yw'n ddeiliog?

Clustiau Ellyllon *Normandina pulchella*



Gwlyb

Ffurf twf a maint: cenynnau crwn bach iawn (hyd at 3mm) gydag ymyl olleuach nodedig sy'n edrych yn debyg i glust

Lliw: llwydlas golau i lwydgyrdd golau, gwyrddach pan yn wlyb

Soredia/Isidia: soredia lledwyrdd

Apothesia: prin, plorod du bach iawn sydd wedi'u hymgorffori yn y thalws

Ochr isaf: amherthnasol

Nodiadau: cyffredin. Gall dyfu naill ai fel cenynnau gwasgaredig neu glystyrog, yn aml yn tyfu dros fwsoglau a llysiâu'r afu'n, neu gennau eraill

3. A yw'r cen yn ffurfio cramen lefn, lympiog neu ronynnog ar y swbstrad; a yw'n gramennog?

Cen Gwyrn *Thelotrema lepadinum*



Ffurf twf a maint: cramen olau gyda nifer o apothesia bach nodedig a thebyg i wyrain

Lliw: lledwyn i lwyd golau

Soredia/Isidia: dim

Apothesia: toreithiog, plorod crwn wedi codi yn tyfu yn y thalws gydag ymyl allanol drwchus ac ymyl fewnol denau, bapuraidd sy'n rhoi ymddangosiad tebyg i wyrain

Ochr isaf: amherthnasol

Nodiadau: anghyffredin ond cyffredin ar rai safleoedd. I'w cael ar amrywiaeth eang o goed mewn hen goetiroedd fel rheol, hefyd yn y gymuned *Graphidion* (Canllaw 3)

Mycobilimbia sphaeroides & *M. epixanthoides*



Ffurf twf a maint: cramen ronynnog, gennog gydag apothesia nodedig (*M. sphaeroides*) a/neu soredia (*M. epixanthoides*) a all ffurfio clytiau mawr hyd at 20cm neu fwy ond sydd fel rheol yn lliai

Lliw: gwyrdd i lwydgyrdd, gwyrddach pan yn wlyb

Soredia/Isidia: dim (*M. sphaeroides*) neu soredia melyn mân (*M. epixanthoides*)

Apothesia: toreithiog (*M. sphaeroides*) neu brin (*M. epixanthoides*), hyd at 1mm, llwydfelyn i oren i binc a chronellolog

Nodiadau: anghyffredin. I'w canfod yn aml ar waelod coed aeddfed neu'n agos atynt, yn aml mewn amodau cysgodol

Gwybodaeth Bellach

Lichens: An Illustrated Guide to the British and Irish Species.
Frank Dobson. 7fed Argraffiad (2018). Richmond Publishing Co. Ltd. Dyma'r canllaw adnabod gorau i'r rhan fwyaf o gennau cyffredin mewn amrywiaeth o gynefinoedd.

Lichens.
Oliver Gilbert (2000). Cyfres New Naturalist Collins. Harper Collins, Llundain. Mae hwn yn gofnod hynod ddarllenadwy o ecoleg a chynefinoedd cennau ym Mhrydain, gan gynnwys pennod dda ar gennau coetir.

britishlichensociety.org.uk
Mae gan Gymdeithas Cennau Prydain (BLS) wybodaeth am gennau, cyhoeddiadau, cyrsiau a dolenni gwe.

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru In Partnership with Welsh Government

Mae'r canllaw maes yma ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn adnabod rhai o'r cennau amlycaf sy'n gysylltiedig â choedwigoedd glaw tymherus yng Nghymru, gyda'r nod o ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen i adnabod rhai o'r rhywogaethau mwy cyffredin, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n dynodi cynefin coedwig law dymherus da.

Mae'n edrych ar grŵp o gennau o'r enw *Lobarion* sy'n tyfu ar goed gyda rhisgl asidig e.e. Bedw, Gwerni, Derw ac ar greigiau asidig, yn enwedig mewn lleoliadau agored gyda lefel uchel o lawiad.

Beth yw coedwig law dymherus?

Mae coedwig law dymherus yn brin yn fyd-eang. Mae'n bodoli lle mae'r hinsawdd yn fwyn ac yn wlyb; mae'r amodau hinsoddol addas i'w cael dros lai na 7% o arwyneb y ddaear.

Nodweddir coedwig law dymherus yn arbennig gan dyfiant toreithiog o gennau, bryoffytau a rhedyn, ac mae llawer ohonynt yn gynol arbennig o dim ond, neu'n bennaf, i'w cael mewn coedwig law dymherus.

Yn Mhrydain, fe'i ceir yn y gorllewin lle mae'r hinsawdd yn fwyn a gwlyb oherwydd dylanwad Llif y Gwlff. Mae'n digwydd ledled y dirwedd fel coetir, porfa goed a choed gwasgareddig; mae'r ffordd mae pobl wedi ymwneud â'r dirwedd dros filoedd o flynyddoedd wedi siapia'r hyn sydd gennym ni heddiw, ac mae'r hyn sy'n weddill yn bwysig yn rhyngwladol o ran y cynefin ei hun a'r rhywogaethau mae'n eu cynnal.

Ledled Prydain mae coedwigoedd glaw yn amrywio yn ôl hinsawdd; mae coedwig law dymherus yr iseldir i'w chael yng Ngorllewin yr Alban a rhannau o Cumbria a Gogledd Cymru, gan adlewyrchu'r amodau hinsoddol gwlypach, tra bo coedwig law ucheldir yn fwy cyffredin. Lle mae'r amodau'n sychach ac yn fwy heulog, mae coetir cefnforol yn dod yn fwy cyffredin. Mae ein defnydd ni o'r term 'coedwig law' fan hyn yn cwmpasu gwir goedwig law a choetir cefnforol gan eu bod yn aml yn digwydd ochr yn ochr â'i gilydd ar draws tirwedd y goedwig law.

Beth yw cen?

Mae cen yn organeb cyfansawdd sydd wedi'i ffurfio yn bennaf gan ffwng ac alga neu syanobacteria ond sy'n cynnwys ffyngau a bacteria eraill hefyd.

Y ffwng sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r cen (y thalws), ond fel gyda phob ffwng ni all gynhyrchu bwyd iddo'i hun. Felly, mae'r ffwng yn ffurfio partneriaeth gyda'r alga neu'r syanobacterium (y ffotobiont), weithiau'r ddau, sy'n cynhyrchu bwyd drwy ffotosynthesis. Mae syanobacteria hefyd yn cynhyrchu bwyd drwy ddal nitrogen.

Y rhywogaeth ffyngaidd sy'n rhoi ei henw i'r cen; mae pob rhywogaeth o gen yn gynyddu ffyngaidd wahanol ond maent yn rhannu nifer cyfmarhol fach o rywogaethau algaidd neu syanobacterial.

Gallant atgenhedlu'n rhywiol, gan gynhyrchu sborau ffyngaidd sy'n cael eu gwasgaru gan y corff ffurtho, ac yn llystyfol gyda pheynnau bach o'r alga a deunydd ffyngaidd yn cael eu gwasgaru mewn strwythurau bach e.e. isidia, soredia.

¹ Term casgliadol ar gyfer mwsoglau, cwpanllisiau a chornllisiau

Pam mae cennau sy'n gysylltiedig â choedwigoedd glaw Cymru mor bwysig?

Mae coedwigoedd glaw tymherus Prydain yn gartref i boblogaethau rhyngwladol bwysig o gennau coedwigoedd glaw, gyda rhai ohonynt yn endemig h.y. ddim i'w canfod yn unman arall yn y byd. Gall y safleoedd cyfoethocaf gynnal hyd at 300 neu fwy o rywogaethau o gen.

Maent yn ddangosyddion pwysig o ansawdd cynefin a gallant ddweud wrthym am hanes ecolegol safle e.e. clirio coed yn y gorffennol. Maent yn fioddangosyddion sy'n cael eu defnyddio i asesu ansawdd aer ac maent yn cyflawni rôl bwysig yn y cylchoedd maethynau a dŵr.

Cymunedau o gennau

Nid ar hap yn unig y mae gwahanol rywogaethau o gennau i'w cael ledled y dirwedd. Er bod rhai'n gallu ymdopi ag ystod eang o amodau, mae llawer ohonynt yn hynod arbennig i gylfachau penodol. Mae pa rywogaethau sy'n tyfu ymhle yn dibynnu ar lawer o ffactorau ond mae cemeg y swbstrad, lefelau'r golau, lefelau'r lleithder a hanes y dirwedd yn arbennig o bwysig. Mae gwahanol rywogaethau sydd â gofynion tebyg yn ffurfio cymunedau ecolegol unigryw, a'r prif rai yng nghoedwigoedd glaw tymherus Prydain yw:

Y Lobarion: a geir ar goed gyda rhisgl ychydig yn asidig i niwtral e.e. ynn, cyll, criafol, helyg a hen dderw (Canllaw 1). I'w canfod mewn coedwig law iseldirol a choetir cefnforol.

Y Parmelion: a geir ar goed gyda rhisgl asidig e.e. gwerni, bedw a derw (edrychwch ar Ganllaw 2). I'w canfod yn arbennig mewn coedwig law ucheldirol.

Y Graphidion: yn digwydd yn nodweddiadol fel môsâig cymhleth o gennau cramennog ar risgl llyfn, yn enwedig ar goed cyll (y Canllaw yma). I'w canfod yn arbennig mewn coedwig law iseldirol a choetir cefnforol.

Sut i ddefnyddio'r canllaw yma

Estynnwch lens llaw x10 ac ewch allan i'r coed! Er mwyn gweld y cennau yn y canllaw yma mae angen archwilio cynefin addas; mae gan y safleoedd coedwigoedd glaw tymherus cyfoethocaf dopograffeg amrywiol, gan gynnwys nentydd a chreigiau, a strwythur coetir amrywiol gyda llenyrych ac amrywiaeth o rywogaethau o goed gan gynnwys hen goed a chyll. Mae'r rhywogaethau yn y canllaw yma i'w gweld ar risgl ac ar fatiau o fwsoglau a llysiau'r afu sy'n tyfu dros risgl ac ar logfeini mwsoglyd a chreigiau.

Mae'r rhywogaethau wedi'u rhannu yn ôl ffurf eu twf neu eu cymeriad a ddynodir gan y penawdar ar frig y disgriffadau:

1. Llabedau deiliog
2. Llabedau deiliog mân (cennol)
3. Cramennog neu ronynnog




Mae disgriffadau'r rhywogaethau'n manylu ar y canlynol:

- y rhywogaethau hynny sy'n ddangosyddion cynefin coedwig law dymherus o ansawdd da (wedi'i nodi ag a ★), cadwch lygad am y rhain wrth gynnal Asesiad Cyffym o Goedwigoedd Glaw
- pa mor gyffredin yw pob rhywogaeth mewn cynefinoedd coedwig law dymherus
- nodweddion adnabod allweddol y thalws a'r apothesia
- nodiadau e.e. y prif rywogaethau sy'n creu dryswch

Cyflwynwch eich cofnodion i Gymdeithas Cennau Prydain.

1. Oes gan y cen labedau deiliog sydd wedi'u datblygu'n dda; a yw'n ddeiliog?

Llysiau'r Ysgyfaint y Coed <i>Lobaria pulmonaria</i>		Cen Memrynl <i>Ricasolia amplissima</i>		Un o'r Cennau Aren <i>Nephroma laevigatum</i>		Un o'r Cennau Aren <i>Nephroma parile</i>		Grŵp <i>Sticta</i> Drewllyd <i>Sticta fuliginosa</i> grŵp		<i>Sticta</i> Drewllyd <i>Sticta sylvatica</i>	
											
Ffurf twf a maint: llabedau mawr (hyd at tua 50cm) wedi'u hatodi'n llac gyda rhwydwaith nodedig o gribau yn rhoi ymddangosiad tebyg i ysgyfaint. Gall y llabedau ifanc fod â pruina lledwyn		Ffurf twf a maint: mawr (hyd at tua 30cm neu fwy) ac wedi'i wasgu'n agos i'r swbstrad, llabedau llyfn neu grych gydag ymylon tonnog; gyda seffalodia ar yr arwyneb fel rheol. Gall y llabedau ifanc fod â pruina lledwyn		Ffurf twf a maint: hyd at 10cm gyda llabedau fel papur tenau a ffrwythau nodedig ar ochr isaf blaenau'r llabedau wedi'u troi ar i fyny. Gyda llabedynnau fflat bach ar ymylon y llabed yn aml		Ffurf twf a maint: twf a maint: hyd at 10cm, llabedau ag ymylon wedi codi neu ffriliog a soredia		Ffurf twf a maint: llabedau crwn hyd at 15cm sydd ddim wedi'u rhannu'n benodol yn llabedau (fel <i>S. sylvatica</i>) ond sy'n gallu bod â rhiciau, holltau neu'n afreolaidd eu hamlinell		Ffurf twf a maint: llabedau crwn hyd at 15cm sydd ddim wedi'u rhannu'n benodol yn llabedau (fel <i>S. sylvatica</i>) ond sy'n gallu bod â rhiciau, holltau neu'n afreolaidd eu hamlinell	
Lliw: llwyd golau iawn pan yn sych i lwydyrdd pan yn wlyb		Lliw: llwyd golau iawn pan yn sych i lwydyrdd pan yn wlyb		Lliw: llwydfrown i gochfrown		Lliw: llwyd golau iawn pan yn sych i lwydylas ar yr ymylon llabed tonnog		Lliw: brown tywyll pan yn wlyb, llwydfrown pan yn sych		Lliw: brown tywyll pan yn wlyb, llwydfrown pan yn sych	
Soredia/isidia: soredia ac isidia ar hyd yr ymylon a'r cribau		Soredia/isidia: soredia ac isidia ar hyd yr ymylon a'r cribau		Soredia/isidia: dim		Soredia/isidia: soredia llwyd golau i lwydylas ar yr ymylon llabed tonnog		Soredia/isidia: isidia bach tebyg i gwrel ar arwyneb y llabedau, yn aml ar gribau ac ymylon		Soredia/isidia: isidia bach tebyg i gwrel ar arwyneb y llabedau, yn aml ar gribau ac ymylon	
Apothesia: achlysurol; disg cochfrown		Apothesia: prin; disg cochfrown gydag ymyl wen		Apothesia: aml; disg oren i frown ar ochr isaf blaenau'r llabedau wedi'u troi ar i fyny		Apothesia: prin iawn		Apothesia: prin, brown castanwydd, yn aml gyda blew golau (cilia) ar yr ymylon		Apothesia: anhybsys	
Ochr isaf: golau gyda cheden glytiog ac ardaloedd noeth amgrwm yn cyfateb i bantiâu rhwng y cribau ar yr arwyneb uchaf		Ochr isaf: golau gyda cheden fflat		Ochr isaf: llyfn neu grych, yn edrych fel lledr brown llyfn		Ochr isaf: ceden olau neu frown gyda smotiau gwyn (cyphellae)		Ochr isaf: ceden olau neu frown gyda smotiau gwyn (cyphellae)		Ochr isaf: ceden frown tywyll gyda smotiau gwyn (cyphellae)	
Rhywogaethau tebyg: <i>Lobarina scrobiculata</i> (edrychwch isod)		Rhywogaethau tebyg: <i>Lobarina scrobiculata</i> (edrychwch isod)		Rhywogaethau tebyg: yn debyg i <i>R. virens</i> pan yn wlyb neu wyrdd ond nid oes gan y rhywogaeth honno seffalodia fyth (edrychwch isod), mae <i>Flavoparmelia caperata</i> yn felynwyrdd mwy llachar ac mae ganddo soredia		Rhywogaethau tebyg: <i>Sticta limbata</i> (edrychwch isod) a <i>Peltigera collina</i> , ond mae'r ochr isaf yn wahanol ar bob rhywogaeth		Rhywogaethau tebyg: <i>S. sylvatica</i> (edrychwch uchod), sydd â thali mwy, wedi'u gwahanu o <i>S. fuliginosa</i> . Mae <i>S. sylvatica</i> yn edrych yn fwy sgieniog yn aml a gydag arlliw efydd, ac ochr isaf dywyllach		Rhywogaethau tebyg: yn debyg i <i>S. fuliginosa</i> (edrychwch i'r chwith) yn enwedig pan maent yn ifanc neu wedi datblygu'n wael, gall fod yn amhosibl bron i wahaniaethau rhwng sbesimenau ifanc o <i>Sticta</i>	
Nodiadau: anghyffredin		Nodiadau: prin		Nodiadau: anghyffredin		Nodiadau: anghyffredin		Nodiadau: anghyffredin. Mae aragl pysgod cryf arno pan mae'n wlyb		Nodiadau: anghyffredin. Mae aragl pysgod cryf arno pan yw'n wlyb	

Lob Scrob <i>Lobarina scrobiculata</i>		Cen Satin Gwyrdd neu Groen Draig <i>Ricasolia virens</i>		Un o'r Cennau Cŵn <i>Peltigera horizontalis</i>		<i>Sticta</i> Blodiog <i>Sticta limbata</i>		Cen Ffelt Cnotiog <i>Pectenaria atlantica</i>		Croen Jeli Carpiog <i>Scytinium lichenoides</i>	
											
Ffurf twf a maint: mawr (hyd at tua 20cm), llabedau afreolaidd wedi'u hatodi'n llac gyda chribau		Ffurf twf a maint: llabedau tonnog llyfn neu grych mawr (hyd at tua 30cm neu fwy) wedi'u wasgu'n agos i'r swbstrad gyda phlorod tebyg i losgfyndd wedi'u gwasgaru dros yr arwyneb		Ffurf twf a maint: mawr, hyd at 40cm, llabedau llyfn, yn aml yn ffurfio clytiau mawr		Ffurf twf a maint: llabedau crwn, gyda rhiciau weithiau, hyd at 15cm gydag ymylon sorediaidd ('blodiog')		Ffurf twf a maint: hyd at 15cm, llabedau tebyg i gregyn bylchog neu blât wedi'u hatodi'n agos i'r swbstrad gyda chribau hydroedol a chylchoedd twf consentrig		Ffurf twf a maint: yn ffurfio clustogau hyd at 10cm o labedau tenau iawn gydag ymylon ffriliog mân iawn	
Lliw: llwydylas neu lwydfelyn pan yn sych neu lwydylas pan yn wlyb		Lliw: llwydylas neu lwydfelyn pan yn sych neu lwydylas pan yn wlyb		Lliw: brown i lwydfrown pan yn wlyb, llwydaidd pan yn sych		Lliw: llwyd i lwydfrown, ond yn dywyllach pan yn wlyb		Lliw: llwydylas golau, arlliw brown weithiau; yn dywyllach pan yn wlyb		Lliw: tywyll, cochlyd yn aml, brown pan yn wlyb, llwyd i wydfrown pan yn sych	
Soredia/isidia: soredia llwyd i lwydylas ac weithiau isidia yn ymledu ar hyd y cribau ac ymylon y llabed		Soredia/isidia: soredia llwyd i lwydylas ac weithiau isidia yn ymledu ar hyd y cribau ac ymylon y llabed		Soredia/isidia: dim		Soredia/isidia: soredia gwasgareddig, 'blodiog', llwyd golau ar hyd yr ymylon ac yn ymledu i arwyneb y llabedau		Soredia/isidia: nifer o isidia cnotiog ar yr arwyneb a'r ymylon, yn enwedig ar y cribau wedi'u codi lle mae ymylon y llabed yn cyfarfod		Soredia/isidia: isidia hirgul silindrog neu debyg i gwrel toreithiog ar ymylon y llabedau gan roi ymyl ffriliog i'r llabedau	
Apothesia: prin; disg cochfrown gydag ymyl werdd drwchus		Apothesia: prin; disg cochfrown gydag ymyl werdd drwchus		Apothesia: aml; disg oren gydag ymyl werdd drwchus		Apothesia: prin iawn		Apothesia: prin; cochlyd		Apothesia: achlysurol, disg bach cochfrown (edrychwch ar y llun)	
Ochr isaf: golau gyda cheden glytiog ac ardaloedd noeth amgrwm yn cyfateb i bantiâu rhwng y cribau ar yr arwyneb uchaf		Ochr isaf: golau gyda cheden glytiog ac ardaloedd noeth amgrwm yn cyfateb i bantiâu rhwng y cribau ar yr arwyneb uchaf		Ochr isaf: gwyn gyda rhwydwaith o wythiennau tywyll a rhisinau brown copog sy'n edrych fel blaenau hen raff wedi breuo		Ochr isaf: ceden frown golau gyda smotiau gwyn (cyphellae)		Ochr isaf: ceden frown tywyll gyda smotiau gwyn (cyphellae)		Ochr isaf: cribau mân ar yr ochr isaf	
Rhywogaethau tebyg: <i>Lobaria pulmonaria</i> (edrychwch uchod)		Rhywogaethau tebyg: <i>Lobaria pulmonaria</i> (edrychwch uchod)		Rhywogaethau tebyg: <i>Ricasolia amplissima</i> (edrychwch uchod) a <i>Flavoparmelia caperata</i>		Rhywogaethau tebyg: <i>Nephroma parile</i> (edrychwch uchod) a <i>Peltigera collina</i> , ond mae'r ochr isaf yn wahanol ar bob rhywogaeth		Rhywogaethau tebyg: <i>Nephroma parile</i> (edrychwch uchod) a <i>Peltigera collina</i> , ond mae'r ochr isaf yn wahanol ar bob rhywogaeth		Rhywogaethau tebyg: <i>Scytinium</i> ond mae'r ymylon ffriliog silindrog neu debyg i gwrel yn nodedig	
Nodiadau: prin		Nodiadau: prin		Nodiadau: anghyffredin		Nodiadau: anghyffredin		Nodiadau: anghyffredin. I'w ganfod yn aml wrth waelod coed a'r rhan fwyaf o fonion a chreigiau		Nodiadau: anghyffredin. Yn tyfu yn aml ymhlith mwsoglau ar waelod coed ac ar greigiau mwsoglyd	